
Adroddiad Blynyddol

Annual Report

Cyngor Tref **Tregaron** *Town Council*

2023/2024



Ebost/*Email*: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
Gwefan/*Website*: www.cyngor-tregaron-council.org.uk

Tabl Cynnwys / Table of Contents

Rhagair y Cadeirydd / <i>Chair Foreword</i>	3-4
Amdanom ni / <i>About us</i>	5-7
Cynlluniau Lle / <i>Place Plans</i>	8
Gwasanaethau'r Cyngor / <i>Council Services</i>	9
Cefnogi'r Gymuned / <i>Supporting the Community</i>	10
Cyllid / <i>Finances</i>	11-12
Dathliad Gŵyl Dewi / <i>St.David's Day Celebration</i>	13-15
Cynllun Adfywio Trefi Gwledig / <i>Regenerating Rural Towns Scheme</i>	16-18
Prosiect Croeso i Geredigion / <i>Welcome to Ceredigion Project</i>	19-20

Rhagair y Cadeirydd / Chair Foreword

Pleser yw cael cyflwyno Adroddiad Blynyddol Cyngor Tref Tregaron am y flwyddyn 2023/24.

Bu eleni yn flwyddyn brysur arall i'r Cyngor Tref, wrth i ni weithio i geisio adfywio'r dref ynghyd â pharhau i ddarparu gwasanaeth teilwng i drigolion y dref a'i ymwelwyr.

Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau yn y dref megis Gwasanaeth Sul y Cofio, troi goleuadau Nadolig ymlaen, taith Sion Corn o gwmpas y dref a pharêd Gŵyl Dewi.

Parhau hefyd bu'r gwaith cynnal a chadw ac yn sgil toriadau mewn gwasanaethau gan y Cyngor Sir, rydym wedi mabwysiadu nifer o ddyletswyddau ychwanegol, gan gynnwys, torri'r porfa o amgylch y dref a gofalu am y toiledau ger y maes parcio.

Mae hyn yn ychwanegol i'r holl waith oedd eisioes yn mynd rhagddo gyda'r parc, glanhau'r strydoedd, toiledau'r mart, addurno'r dref, a chefnogi mudiadau a digwyddiadau lleol, a hynny i enwi ond ychydig.

Mae nifer o brosiectau cyffrous ar y gweill a gobeithio yn fawr dros y misoedd nesaf y gwelwn y canlynol yn blaguro wrth i ni geisio trawsnewid y dref:

- Ffynnon ddŵr yn y maes parcio
- Gorsaf drwsio beiciau a phwyntiau gwefru
- Raciau beic ar y Sgwar fawr
- Datblygu gardd gymunedol
- Mapiau o'r dref
- Ail argraffiad o'r llyfr cerdded lleol
- Gwelliannau i'r parc chwarae
- Defnydd o'r bwrdd digidol fel pwynt gwybodaeth

Mae hwn yn gyfnod cyffrous iawn i Dregaron, a mawr obeithiaf gweld y dref yn parhau i dyfu, datblygu a ffyni yn y dyfodol. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i fy nghyd-gynghorwyr am eu cefnogaeth. Diolch hefyd i'r Clerc am ei gwaith di flino, y Gweithiwr Strydlun, ac hefyd i'r holl wirfoddolwyr sydd yn sicrhau fod Tregaron yn ffynnu ac le perffaith i fyw ynddo.

Cyng Arwel Jones
Cadeirydd

It is a pleasure to present the Tregaron Town Council Annual Report for the year 2023/24.

This year was another busy one for the Town Council, as we tried to revive the town and continue to provide a service for the town residents and the visitors.

A number of events were organised in the town such as Remembrance Sunday, turning on Christmas lights, Santa's tour of town and the St David's Day parade.

The maintenance work also continued and as a result of service cuts by the County Council we have adopted a number of additional duties, including, cutting the grass around the town and looking after the toilets near the car park.

This is in addition to all the work already happening at the park, cleaning the streets, the mart's toilets, decorating the town, support local organisations and events, to name but a few.

Several exciting projects have been identified for the coming months which will enable us to transform the town:

- Water fountain in the car park*
- Bike repair station and electric bike points*
- Bike racks on the Square*
- Develop a community garden*
- Maps of the town*
- Reprint of the local walking book*
- Improvements to the play park*
- Use of the digital board as an information point*

This is an exciting time for Tregaron, and I hope to see the town continue to grow, develop and flourish in the future. I would like to thank my co-councillors for their support. Thanks also to the Clerk for her tireless work, the Street scene Worker and all the volunteers that ensure that Tregaron flourishes and is a perfect place to live.

*Cllr Arwel Jones
Chairman*

Amdanom ni / About us

Saif Tregaron yng nghysgod mynyddoedd y Cambrian; mae yn un o'r chwech prif-drefi marchnad yng Ngheredigion ac wedi gefeillio gyda Plouvien yn Llydaw ers 1999.


Mae'r Cyngor Tref yn ymatebol i bobl Tregaron ac mae yn ddyletswydd ar y Cyngor i gynrychioli gwahanol ddiddordebau o fewn y gymuned, yn gyfartal.

Mae'r Cyngor yn cwrdd ar y trydydd nos Lun o bob mis, ar wahân i fis Awst, a hynny am 7.30 yr hwy yn y Neuadd Goffa.

Nid oes wardiau ac mae un-ar-ddeg o Gynghorwyr ar y Cyngor. Etholir cynghorwyr bob pum mlynedd a chynhelir y cyfarfod blynyddol ym mis Mai, pryd y dewisir Cadeirydd ac Is-gadeirydd.

Cyflogir Clerc i redeg busnes y Cyngor, ynghyd â gweithiwr Strydlun rhan amser.

Yn flynyddol, rhoddir cyfle i fudiadau niferus yn Nhregaron i gynnig am grant tuag at eu hamrywiol weithgareddau.



Tregaron stands in the shadow of the Cambrian Mountains, it is one of the six main market towns of Ceredigion and twinned with Plouvien, in Brittany, since 1999.

The Town Council is accountable to the people of Tregaron and has a duty to represent the varied interests of the community equally.

Meetings are held monthly, on the third Monday, with the exception of August, at 7.30 pm in the Memorial Hall.

There are no wards and eleven Councillors are elected to the Council every five years. The annual general meeting is held in May, when a Chair and Vice-Chair are selected.

A Clerk is employed to conduct the business of the Council, as well as a part-time Street scene worker.

Every year, there is an opportunity for numerous organisations in Tregaron, to apply for a grant towards their activities.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 11 aelod etholedig ac rydym yn cyflogi 2 aelod o staff rhan amser – Clerc a Gweithiwr Strydlun.

The Council consists of 11 elected members and we employ 2 part time staff – Clerk and Street Scene Worker –

Cynghorwyr / Councillors –

- Cyng / Cllr Catherine Hughes
- Cyng / Cllr Arwel Jones (Chair)
- Cyng / Cllr Rhydian Wilson (Vice-Chair)
- Cyng / Cllr Rhian Jones
- Cyng / Cllr Owain Pugh
- Cyng / Cllr Dafydd Richards
- Cyng / Cllr Sian Jones
- Cyng / Cllr Dewi Evans
- Cyng / Cllr Rhian Hughes
- Cyng / Cllr Gwion James (ymunodd Hydref 2023 / joined October 2023)
- Cyng / Cllr Meirian Morgan (ymunodd Tachwedd 2023 / joined November 2023)

Staff / Staff –

- Fflur Lawlor (Clerc / Clerk)
- Noel Jones (Gweithiwr Strydlun / Street Scene Worker)

Aelod Lleol Cyngor Sir Ceredigion / Ceredigion County Council Local Member –

- Cyng / Cllr Ifan Davies

Presenoldeb Cyfarfodydd Llawn y Cyngor 2023-2024 / Full Council Meeting Attendance 2023-2024

Cyng/Cllr	15/05/2023	19/06/2023	17/07/2023	18/09/2023	16/10/2023	20/11/2023	18/12/2023	18/01/2024	11/02/2024	19/02/2024	18/03/2024	15/04/2024	Cyfanswm/Total	%
Catherine Hughes	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	12	100.00%
Arwel Jones	Green	Red	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	11	91.67%
Rhydian Wilson	Green	Green	Green	Red	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Red	10	83.33%
Rhian Jones	Green	Green	Green	Green	Green	Red	Green	Green	Green	Green	Green	Green	11	91.67%
Owain Pugh	Green	Green	Green	Red	Green	Green	Green	Red	Red	Green	Red	Green	8	66.67%
Dafydd Richards	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	12	100.00%
Sian Jones	Green	Green	Green	Green	Red	Green	Red	Green	Green	Green	Red	Green	9	75.00%
Dewi Evans	Red	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	11	91.67%
Rhian Hughes	Red	Green	Green	Red	Green	Green	Green	Red	Green	Green	Green	Green	9	75.00%
Gwion James (Ymunodd / Joined 09/23)	Grey	Grey	Grey	Red	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	8	66.67%
Meirian Morgan (Ymunodd / Joined 11/23)	Grey	Grey	Grey	Grey	Grey	Green	Red	Green	Green	Red	Green	Green	5	41.67%
Ifan Davies (Aelod Lleol CSC / CCC Local Member)	Green	Green	Red	Green	Green	Green	Red	Red	Green	Red	Green	Green	8	66.67%
Fflur Lawlor (Clerc / Clerk)	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	12	100.00%

Mae'r Cyngor yn cyfarfod yn fisol ac mae ganddo'r is-bwyllgorau canlynol –

The Council meets on a monthly basis and has the following sub-committees –

Is-bwyllgorau a Chynrychiolwyr ar bwyllgor allanol / Sub-Committees & External Committee Representation	Aelod / Member
Gweinyddiaeth / Un Llais Cymru / Cyllid <i>Administration / One Voice Wales / Finance</i>	Clerc / <i>Clerk</i> Cadeirydd / <i>Chair</i> Is-Gadeirydd / <i>Vice Chair</i>
Iaith Gymraeg <i>Welsh Language</i>	Clerc / <i>Clerk</i> Cyng / <i>Cllr Arwel Jones</i>
Tregaron Taclus-Stryd/Meinciau/Gweithiwr Strydwedd <i>Tidy Tregaron-Street/Benches/Street Scene Worker</i>	Cyng / <i>Cllr Rhian Jones</i> Cyng / <i>Cllr Sian Jones</i> Clerc / <i>Clerk</i>
Parc / Blodau <i>Park / Flowers</i>	Cyng / <i>Cllr Rhian Jones</i> Cyng / <i>Cllr Owain Pugh</i> Cyng / <i>Cllr Dewi Evans</i>
Bwrdd Digidol <i>Digital Board</i>	Cyng / <i>Cllr Arwel Jones</i> Cyng / <i>Cllr Rhydian Wilson</i> Clerc / <i>Clerk</i>
Busnesau / Digwyddiadau Lleol <i>Local Businesses / Events</i>	Cyng / <i>Cllr Rhydian Wilson</i>
Llwybrau Cyhoeddus <i>Public Footpaths</i>	Cyng / <i>Cllr Rhydian Wilson</i> Cyng / <i>Cllr Dafydd Richards</i> Cyng / <i>Cllr Owain Pugh</i>
Cylch Caron / Canolfan Deulu <i>Cylch Caron / Family Centre</i>	Cyng / <i>Cllr Catherine Hughes</i>
Cynllunio / Twristiaeth / Hamdden / Cynlluniau Lle <i>Planning / Tourism / Leisure / Place Plans</i>	Cyng / <i>Cllr Rhydian Wilson</i> Cyng / <i>Cllr Arwel Jones</i> Cyng / <i>Cllr Catherine Hughes</i> Clerc / <i>Clerk</i>

Cynlluniau Lle / Place Plans

Anogodd Llywodraeth Cymru ddull newydd o gynllunio cymunedol yng Nghymru ac anogwyd Cynghorau Sir i gefnogi cymunedau lleol i baratoi Cynlluniau Lle lleol gyda'r nod o gael y rhain i'w mabwysiadu gan y Cyngor Sir fel Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i eistedd o dan y Cynllun Datblygu Lleol.

Mabwysiadodd Cynlluniau Lle Ceredigion Ddull Rhanbarthol i alinio â'i Strategaeth Gorfforaethol a gwahoddwyd chwe thref i baratoi, Cynlluniau Gweithredu gan ddefnyddio dull "Gwaelod i Fyny". Rhoddodd hyn gyfle i'r gymuned ddod at ei gilydd a thrafod yr hyn sydd angen digwydd i wneud eu lle y gorau y gall fod a rhoi cyfle iddynt berchnogi eu Cynlluniau Lle.

Cafodd y 6 Thref - Aberystwyth, Aberaeron, Llanbedr Pont Steffan, Tregaron, Aberteifi a Llandysul - y dasg o ymgysylltu â'r gymuned a gwnaed hyn mewn sawl ffordd gan gynnwys llunio holiaduron, trefnu gweithdai, cynnal sesiynau galw heibio ac ati.

Yn dilyn ymlaen o ymgysylltiad Cynlluniau Lle Ceredigion ac o ganlyniad i Covid-19 mae Swyddog Datblygiadau Gwledig bellach wedi'i benodi i gydlynu a hwyluso gwaith o ddarparu gweithgaredd adfywio i gefnogi adfer trefi gwledig a chymunedau anghysbell Ceredigion.

Gellir gweld y Ddogfen ar gyfer tref Tregaron yma –

https://www.cynnalycardi.org.uk/media/1286/tregaron-place-plan-v-leader-final_cy.pdf

Welsh Government encouraged a new approach to community planning in Wales and County Councils were encouraged to support local communities in preparing locally based Place Plans with the aim of having these adopted by the County Council as Supplementary Planning Guidance (SPG) to sit below the Local Development Plan.

Cynlluniau Lle Ceredigion Place Plans adopted a Regional Approach to align with its Corporate Strategy and six towns invited to prepare, Place / Action Plans using a "Bottom up" approach. This gave the community an opportunity to come together and discuss what needs to happen to make their place the best it can possibly be and afford them the opportunity to take ownership of their Place Plans.

The 6 Towns – Aberystwyth, Aberaeron, Lampeter, Tregaron, Cardigan and Llandysul - were tasked to engage with the community and this was done in various ways including compiling questionnaires, arranging workshops, hold drop in sessions etc.

At the end of the process all six towns prepared a final Place Plan Document for adoption as a Supplementary Planning Guide by Ceredigion County Council.

The Document for Tregaron town can be seen here -

<https://www.cynnalycardi.org.uk/media/1280/tregaron-place-plan-v-leader-final.pdf>

Mae'r Cyngor yn darparu llawer o wasanaethau lleol ac yn gweithio gyda Chyngor Sir Ceredigion a grwpiau Cymunedol i gefnogi'r gymuned.

Yn benodol rydym ni -

- Gofalu am gerflun Henry Richard ar Sgwâr Tregaron
- Darparu cyfleusterau cyhoeddus mewn partneriaeth ag Arwerthwyr DAG ym Mart Tregaron, Heol yr Orsaf, Tregaron
- Darparu arddangosfeydd blodau mewn llawer o leoliadau ar draws y dref
- Cynnal y meinciau ledled y dref
- Trefnu nifer o ddiwyddiadau cymunedol gan gynnwys sesiynau codi sbwriel, troi'r goleuadau Nadolig ymlaen a Thaith Siôn Corn
- Yn rheoli Parc Tregaron (ar brydles gan Gyngor Sir Ceredigion)
- Cydlynu'r Bwrdd Digidol sydd wedi'i leoli ar Sgwâr Tregaron
- Yn gyfrifol am y biniau gwastraff cŵn
- Cylch Cerrig
- Coed Nadolig a Goleuadau
- Sul y Cofio
- Gwobr a Dathliad Gŵyl Dewi

The Council provides many local services and works with Ceredigion County Council and Community groups to support the community.

In particular we –

- *Look after the statue of Henry Richard on Tregaron Square*
- *Provide Public conveniences in partnership with DAG Auctioneers at Tregaron Mart, Station Road, Tregaron*
- *Provide floral displays in many locations across the town*
- *Maintain the benches throughout the town*
- *Arrange a number of community events including litter picks, turning on the Christmas lights and the Santa Tour*
- *Manages Tregaron Park (leased from Ceredigion County Council)*
- *Co-ordinate the Digital Board located on Tregaron Square*
- *Responsible for the Dog waste bins*
- *'Cylch Cerrig'*
- *Christmas Trees and Lights*
- *Remembrance Sunday*
- *St.David Day Award & Celebration*

Cefnogi'r Gymuned / Supporting the Community

Mae'r Cyngor yn ddiolchgar i'r holl grwpiau sy'n trefnu digwyddiadau yn ein cymuned, boed yn un digwyddiad neu yn ddigwyddiadau rheolaidd.

Mae'r cyngor yn dyrannu rhywfaint o'i gyllideb bob blwyddyn i gefnogi grwpiau lleol. Eleni rhoesom grantiau gwerth cyfanswm o £2050 ar gyfer grwpiau sy'n cwmpasu'r ystod lawn o'n preswylwyr o'r ieuengaf i'r ieuengaf ein hynaf.

Yn ogystal, rydym yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau trwy arddangos posteri ac erthyglau ar ein hysbysfyrddau, ein gwefan a thudalen Facebook Tregaron a rhoi cymorth a chynghor lle gallwn.

Mae'r Cyngor wedi dyrannu £1500 pellach tuag at gymorth grant ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 ac mae manylion am sut i wneud cais ar ein gwefan.

The Council is grateful to all the groups that organise events in our community, whether they be one off or regular events.

The council allocates funds each year to support local groups. This year we gave grants totalling £2050 for groups encompassing the full range of our residents from the youngest to our most senior.

In addition, we publicise events by displaying posters & articles on our noticeboards, website and Tregaron Facebook page and give help and advice where we can.

The Council has allocated a further £1500 towards grant support for the 2024-25 financial year and details of how to apply can be found on our website.

Cefnogwyd y mudiadau canlynol –
The following organisations were supported –

- 1) Clwb Cinio Tregaron *Lunch Club* - £100
- 2) Carnifal Tregaron *Carnival* - £100
- 3) Undeb y Mamau Cangen Tregaron / *Mothers Union Tregaron branch* - £100
- 4) Canolfan Dreftadaeth Tregaron *Heritage Centre* - £100
- 5) Merched y Wawr Tregaron - £100
- 6) Eisteddfod Gadeiriol Tregaron - £100
- 7) Twrnament Pêl-droed Clwb Pel-Droed Tregaron *Turfs Football Festival* -£100
- 8) Treialon Cwn Defaid Tregaron *Sheep Dog Trials* - £100
- 9) Clwb Seiclo Caron *Cycling Club* - £100
- 10)Pwyllgor Efeillio Tregaron a'r Cylch / *Tregaron Twinning Committee* - £100
- 11)Cymdeithas Hanes Tregaron a'r Cylch / *Tregaron History Society* - £100
- 12)Helfa Gogerddan Hunt - £100
- 13)C.Ff.I Tregaron *YFC* - £100
- 14)Papur Bro Y Barcud - £100
- 15)Tregaroc - £100
- 16)Canolfan Deulu Tregaron *Family Centre* - £100
- 17)Clwb Snwncer Tregaron *Snooker Club* - £100
- 18)Rasus Trotian Tregaron *Harness Races* - £100
- 19)C.Ff.I Tregaron – Rali C.Ff.I Ceredigion *YFC Rally 2024* - £250

Cyllid / Finances

Rheolir gwariant y Cyngor gan broses gyllidebu a monitro. Wrth osod ei gyllideb mae'r Cyngor yn anelu at ddarparu gwasanaethau, rheoli cyfleusterau a chyflawni ei flaenoriaethau. Ystyrir y gyllideb yng nghyfarfod misol Ionawr yn flynyddol.

Er mwyn rheoli arian cyhoeddus yn effeithiol mae Cyngor Tref Tregaron:

- Ymdrechu i gael gwerth am arian
- Monitro a rheoli gwariant yn unol â'i Reolau Sefydlog a'i Reoliadau Ariannol
- Ystyried cymariaethau cyllidebol yn erbyn gwirioneddol drwy gydol y flwyddyn
- Yn darparu cyllid grant
- Nodi prosiectau'r dyfodol, yn ôl yr angen

Crynodeb ariannol ar gyfer y flwyddyn 2023/24:

<i>Balans ar 31/03/23</i>		30,340.58
Cyfanswm Gwariant		-27,531.40
<i>Praesept (Treth y Cyngor)</i>	21,830.00	
<i>Amryw. Incwm</i>	2,488.87	
<i>Nawdd Grant</i>	0.00	
Cyfanswm yr Incwm		24,547.25
<i>Balans ar 31/03/24</i>		27,356.43

Mae cyfrifon y Cyngor yn cael eu harchwilio bob blwyddyn yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018. Mae cyfrifon diwedd blwyddyn 2023/24 ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor a byddant ar gael i'w harchwilio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn 2023/24 wedi'u harchwilio'n briodol ond heb eu hardystio eto gan yr archwilydd allanol. Yn ôl y gyfraith mae gan unrhyw berson â diddordeb yr hawl i archwilio cyfrifon Cyngor. Os oes gennych hawl ac wedi'ch cofrestru i bleidleisio yn etholiadau'r Cyngor Tref, yna mae gennych chi (neu'ch cynrychiolydd) hefyd yr hawl i ofyn cwestiynau i'r archwilydd penodedig am gyfrifon y cyngor neu herio eitem o gyfrif sydd ynddynt.

Os hoffech chi fel preswilydd gyflwyno unrhyw awgrymiadau i'r Cyngor ar gyfer prosiectau yn y dyfodol a fyddai o fudd i'r gymuned ac yn hybu llesiant, cysylltwch â'r Clerc.

The Council's expenditure is controlled by a budgeting and monitoring process. In setting its budget Council aims to provide services, manage facilities and meet its priorities. The budget is considered at the January monthly meeting annually.

In order to effectively manage public funds Tregaron Town Council:

- Strives to obtain value for money
- Monitors and controls expenditure as per its Standing Orders and Financial Regulations
- Considers budget versus actual comparisons throughout the year
- Provides grant funding
- Identifies future projects, as required

Financial summary for the year 2023/24:

Balance as at 31/03/23	30,340.58
Total Expenditure	-27,531.40
Precept (Council Tax)	21,830.00
Misc. Income	2,488.87
Grant received	0.00
Total Income	24,547.25
Balance as at 31/03/24	27,356.43

The Council's accounts are audited each year in accordance with the Accounts and Audit (Wales) (Amendment) Regulations 2018. End of year accounts for 2022/23 are available to view on the Council's website and will be available for inspection later in the year.

The accounts for the year 2023/24 have been duly audited but not yet certified by the external auditor. By law any interested person has the right to inspect a Council's accounts. If you are entitled and registered to vote in the Town Council elections, then you (or your representative) also have the right to ask the appointed auditor questions about the council's accounts or challenge an item of account contained within them.

If, as a resident you would like to put forward any suggestions to Council for future projects that would benefit the community and promote well-being, please contact the Clerk.

Dathliad Gŵyl Dewi Tregaron / Tregaron St. David Day Celebration

Cynhaliwyd dathliad Gŵyl Dewi Tregaron prynhawn Gwener 1af o Fawrth yng nghwmni Ysgol Henry Richard.

Cychwynnodd y Parêd o'r ysgol lawr trwy'r dref tuag at y Neuadd Goffa lle roedd y Pictôns yn ein croesawi. Croesawyd pawb gan Cadeirydd y Cyngor Tref, Cyng. Arwel Jones a chafwyd eitemau gan ddisgyblion Ysgol Henry Richard.

Eleni mae Cyngor Tref Tregaron wedi lansio gwobr newydd sbon i gydnabod cyfraniad gwirfoddol lleol.

Bwriad y wobr yw dathlu a diolch i wirfoddolwr sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i ardal Tregaron.

Derbynwyd sawl enwebiad am fobl sydd wedi gweithio'n ddiwyd a thawel er lles yr ardal a hynny mewn meysydd tebyg i chwaraeon, cymuned, amaeth, plant, pobl ifanc, pobl hŷn neu unrhyw faes arall . Mae yna gymaint o bobl sy'n gwneud gwaith gwych yn y gymuned a hynny heb unrhyw gydnabyddiaeth o gwbl, felly dyma gyfle i gydnabod ymrwymiad un o sêr yr ardal.

I fod yn ddilys am y wobr roedd rhaid i'r unigolyn a enwebyr:

- Byw ym mhlwyf etholiadol Tregaron
- Bod dros 18 mlwydd oed
- Bod wedi gwneud gwaith gwirfoddol sy'n berthnasol i'r dre

Penodwyd panel annibynnol y tu allan i'r Cyngor Tref i benderfynu ar yr enillydd. Hoffai'r panel longyfarch pawb a enwebwyd a chydabod y gwaith a wneir gan yr holl unigolion a sefydliadau lleol. Mae eu hymroddiad a'u gwaith diflino yn mynd yn bell ac yn gwneud Tregaron yn le arbennig.

Yr enillydd eleni oedd David John Edwards. Mae David John, neu DJ fel yr ydym ni yn ei adnabod, wedi bod yn gweithio'n ddiwyd yn y gymuned ers blynyddoedd lawer. Person gweithgar a chymwynasgar.

- Gweithio'n galed i wneud Rasys Trotian Tregaron yn llwyddiant.
- Aelod brwdfrydig o'r Clwb Bowlio – rhedeg y gynghair a chynorthwyo'n gyson.
- Gofalwr y Neuadd Goffa.
- Bu'n gwasanaethu ar y Cyngor Tref am 13 mlynedd.
- Mae'n barod ei gymwynas ag unrhyw fudiad ac i'w weld mewn digwyddiadau drwy stiwardio, trefnu trafndiaeth, neu unrhyw swydd bydd y trefnwyr am iddo wneud.
- Ef sydd yn rhedeg y Syndicad Olew lleol ac mae hefyd yn casglu caniau i'w ail gylchu cyn rhoi'r arian i elusennau / grwpiau lleol.

Arwr lleol heb os. Mae'r enghreifftiau yma yn dangos ei ymroddiad tuag at y gymuned. Mae'n haeddiannol o dderbyn y wobr. Llongyfarchiadau mawr David John!

Talwyd pleidlais o ddiolch gan Cyng. Catherine Hughes a gorffenwyd trwy gyd ganu ein anthem cenedlaethol.

The celebration of St David's Day in Tregaron was held on the afternoon of Friday 1st March in the company of Ysgol Henry Richard.

The Parade started from the school down through the town towards the Memorial Hall where the Pictôns welcomed us. Everyone was welcomed by the Chairman of the Town Council, Cllr. Arwel Jones and pupils of Ysgol Henry Richard entertained the audience.

This year Tregaron Town Council launched a brand new award to recognise local voluntary contribution.

The purpose of the award is to celebrate and thank a volunteer who has made an exceptional contribution to the Tregaron area.

We received several nominations for people who have worked diligently and quietly for the benefit of the area in areas such as sports, community, agriculture, children, young people, older people or any other area. There are so many people who do great work in the community without any recognition at all, so this is an opportunity to recognize the commitment of one of the area's stars.

To be valid for the award the person nominated has to:

- Live in the electoral parish of Tregaron*
- Be over 18 years old*
- Does voluntary work relevant to the town*

An independent panel outside the Town Council was appointed to decide the winner. The panel would like to congratulate all those nominated and acknowledge the work done by all the local individuals and organisations. Their dedication and tireless work go a long way and make Tregaron a special place.

This year's winner was David John Edwards. David John, or DJ as we know him, has been working diligently in the community for many years. An active and helpful person.

- He works hard to make the Tregaron Trotting Races a success.*
- An enthusiastic member of the Bowling Club - running the league and helping out regularly.*
- Caretaker of the Memorial Hall.*
- He served on the Town Council for 13 years.*
- He is ready to help any organisation and can be seen at events by stewarding, organising transport, or any job the organisers want him to do.*
- He runs the local Oil Syndicate and also collects cans for recycling before donating the money to charities / local groups.*

A local hero without a doubt. These examples show his dedication to the community. He deserves to receive the award. Congratulations David John!

A vote of thanks was given by Cllr. Catherine Hughes and we finished by singing our national anthem.



Cadeirydd Cyngor Tref Tregaron, Cyng. Arwel Jones yn cyflwyno David John Edwards a'r wobwr
Cllr. Arwel Jones, Chair of Tregaron Town Council presenting David John Edwards with the award



David John Edwards, enillydd cyntaf
 Gwobr Gŵyl Dewi Tregaron
David John Edwards, first winner of the Tregaron St. David's Day Award



Mae'r cynllun Adfywio Trefi Gwledig wedi derbyn cyllid drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Mae Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi (GGLI) wedi cefnogi Swyddog Datblygu Trefi Gwledig newydd i gydlynu a hwyluso cyflwyno gweithgaredd adfywio i gefnogi adferiad trefi gwledig Ceredigion i greu trefi ffyniannus, sy'n hydwyth ac yn canolbwyntio ar bobl.

Y trefi a nodwyd ar gyfer y rhaglen cymorth busnes digidol yw Aberystwyth, Aberaeron, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul, Tregaron a chymunedau pellennig, ac mae'r gwaith yn parhau gyda'r gymuned leol, busnesau ac asiantaethau i weithredu a chyflwyno'r prosiectau ag ariannwyd gan y rhaglen.

Mae blaenoriaethau'r cynllun grant yn cynnwys:

- Cryfhau a chynnal economi trefi gwledig Ceredigion.
- Cryfhau cadwyn cyflenwi o fewn Ceredigion.
- Cael mynediad at wybodaeth sy'n arwain y farchnad a fydd yn galluogi busnesau Ceredigion i gael mynediad at ddata er mwyn cefnogi twf yn y sector preifat.
- Ymchwilio mewn i'r cyfleoedd ar gyfer model economi gylchol Ceredigion.
- Ychwanegu gwerth i gynnyrch lleol.
- Cefnogi a datblygu gallu a cydnherth o fewn cymunedau gwledig Ceredigion.
- Cefnogi arloesedd cymdeithasol sy'n helpu i ddod o hyd i atebion i heriau cymdeithasol.

Roedd y cynllun Adfywio Trefi Gwledig sy'n cael ei redeg gan raglen LEADER Cynnal y Cardi, Cyngor Sir Ceredigion yn cefnogi Cyngor Tref Tregaron gyda –

- Prosiect beiciau: ffynhonnau dŵr, raciau beiciau, stondinau cynnal a chadw beiciau a gwefrydd e-feic.
- Gwefan i'r dref
- Ail argraffiad o'r llyfr cerdded lleol
- Map o'r dref

The Regenerating Rural Towns scheme has received funding through the Welsh Government Rural Communities – Rural Development Programme 2014-2020, which is funded by the European Agricultural Fund for Rural Development and the Welsh Government.

The Cynnal y Cardi Local Action Group (LAG) have supported a new Rural Towns Development Programme to coordinate and facilitate the delivery of regeneration activity to support the recovery of Ceredigion's rural towns to create thriving, people-centred, and resilient towns.

The towns identified for the digital business support programme are Aberystwyth, Aberaeron, Cardigan, Lampeter, Llandysul, Tregaron and outlying communities, and

work is ongoing with the local community, businesses and agencies to implement and deliver the LEADER funded projects supported by the programme.


Priorities for the grant scheme included:

- To support and sustain Ceredigion's rural town economy.
- To strengthen local supply chains within Ceredigion.
- To access market leading intelligence that will allow Ceredigion businesses to access data in order to support growth in the private sector.
- To investigate the opportunities for the circular economy model in Ceredigion.
- Adding value to local products.
- To support and develop capacity and resilience within Ceredigion's rural communities.
- To support social innovations that help find solutions to societal challenges.

The Regenerating Rural Towns scheme run by the Cynnal y Cardi LEADER programme, Ceredigion County Council supported Tregaron Town Council with –

- Bikes project: water fountains, bike racks, bike maintenance stands and e-bike charger.
- Town website
- Re-print of the local Walking book
- Town Map





Croeso i Tregaron

Sail Tregaron yng nghysgod Mynyddoedd Cambria, ger farddiad yr afon Teifi ac ma'n un o chwe phrif dref farchnad Ceredigion ac wedi ei gefnillio â Plouvienn yn Lydaw, ers 1292.

Yn y 19eg Canrif, roedd yn dref farchnad lewyrchus ac yn fan aros pwysig i borthnyrn ar eidd llwybrau trwy Cymru i farchnadoedd Lloegr. Rhoddwyd Slatr Frenhinol i farchnad draddodiadol y dref, "Fair Garon" ym 1292.

Welcome to Tregaron

Tregaron stands in the shadow of the Cambrian Mountains, near the source of the river Teifi and it is one of the six main market towns of Ceredigion and twinned with Plouvienn in Brittany, since 1999.

In the 19th Century, it was a thriving market town and an important stop for drovers on their routes through Wales to English markets. The town's traditional market, "Fair Garon" was granted its Royal Charter in 1292.

Allwedd

1 Stryd yr Orsaf	23 Lôn Caron
2 Pentodyn	24 Pwllswyddog
3 Sgwâr Fach	25 Capel Bwlchgwynn
4 Stryd y Capel	26 Eglwys St Caron
5 Stryd y Cwrier	27 Ysgol Henry Richard
6 Maesamlwg	28 Caeau Chwaraeon
7 Llys Maesamlwg	29 Neuadd Goffa / Memorial Hall
8 Heol y Bont	30 Ysbyty
9 Sgwâr Fawr	31 Meddygfa
10 Heol Dewi	32 Fferylfa
11 Doldre	33 Canolfan Treftadaeth
12 High Street	34 Canolfan Hamdden
13 Cross Street & Glangro	35 Clwb Bowlio
14 Well Street	36 Stad Ddiwydiannol
15 Pentre / Pentre Isaf	37 Parc
16 Clos Twm Slôn Cat	38 Sallt's Mart
17 Heol Pontrhydfendigaid	39 Maes Parcio
18 Maesyrwael	40 Cylch Cerrig
19 Blaencaron	41 Sallt Cych Caron
20 Brynheulog	42 Gorsaf Dán
21 Lôn Groes	43 Swyddfa'r Post
22 Rhydyfawng	44 Clwb Rygbi
	45 Bryntirion
	46 Heol Llambad

Map Key

Station Road	1	Pwllswyddog	24
Pentodyn	2	Bwlchgwynn Chapel	25
Sgwâr Fach	3	St Caron Church	26
Chapel Street	4	Ysgol Henry Richard	27
Currier Street	5	Playing Fields	28
Maesamlwg	6	Memorial Hall	29
Llys Maesamlwg	7	Hospital	30
Bridge Street	8	Surgery	31
Sgwâr Fawr	9	Chemist	32
Dewi Road	10	Heritage Centre	33
Doldre	11	Leisure Centre	34
High Street	12	Bowling Club	35
Cross Street & Glangro	13	Industrial Estate	36
Well Street	14	Park	37
Pentre / Pentre Isaf	15	Market Place	38
Clos Twm Slôn Cat	16	Car Park	39
Pontrhydfendigaid Road	17	Cylch Cerrig	40
Maesyrwael	18	Cylch Caron Site	41
Blaencaron	19	Fire Station	42
Brynheulog	20	Post Office	43
Lôn Groes	21	Rugby Club	44
Rhydyfawng	22	Bryntirion	45
Lôn Caron	23	Lampeter Road	46

clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk cyngor-tregaron-council.org.uk

Prosiect Croeso i Geredigion / Welcome to Ceredigion Project

Ar ddechrau blwyddyn newydd, gafodd prosiect cyffrous i lansio i hybu'r Gymraeg a'i diwylliant ymhlith pobl sy'n symud i Geredigion.

Nod y prosiect 'Croeso i Geredigion' yw codi ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg ac agweddau gwahanol o fyw trwy gyfrwng y Gymraeg ymysg pobl sy'n symud i'r sir. Y gobaith yw grymuso cymunedau trwy ddangos i bobl pa gyfleoedd sydd ar gael iddynt gyfrannu a chefnogi'n lleol a'u helpu i ddeall sut mae'r Gymraeg yn gwau'n naturiol i fywyd y sir.

Mae Cered (Menter Iaith Ceredigion) yn gweithio gyda thair cymuned i ddechrau i dreialu'r cynllun dros y misoedd nesaf gan annog pobl leol i'w roi ar waith. Bydd y cymunedau hyn yn cael cyflenwad o gardiau post 'Croeso i Geredigion' yn seiliedig ar fap a ddyluniwyd gan Lizzie Spikes a'r cardiau hynny i'w dosbarthu i gartrefi pobl sydd wedi symud i'r ardal. Bydd darllynydd y cerdyn post yn gallu defnyddio'r cod QR ar gefn y cerdyn i gael mynediad at e-lyfr newydd yn llawn gwybodaeth am iaith a diwylliant Ceredigion.

Mae Tregaron yn un ardal sydd yn treilau'r Cynllun.

Dywedodd y Cynghorydd Arwel Jones, Cadeirydd Cyngor Tref Tregaron: "Mae hyn yn gyfle arbennig i ni hyrwyddo'r Gymraeg i bobl sydd newydd symud i Dregaron ac i ddangos yr holl bethau ffantastig sy'n cael eu cynnal yn yr ardal. Mae'r Cyngor yn edrych ymlaen at gydweithio gyda Cered i gymryd rhan yn y prosiect blaengar hwn."

Caiff y prosiect 'Croeso i Geredigion' ei gynnal gan Cered (Menter Iaith Ceredigion) Cyngor Sir Ceredigion, trwy nawdd Cynnal y Cardi. Am ragor o wybodaeth am sut i gymryd rhan yn y cynllun, cysylltwch â Cered ar cered@ceredigion.gov.uk

At the start of the new year, an exciting project was launched to promote the Welsh language and its culture among people moving to Ceredigion.

The aim of the 'Welcome to Ceredigion' project is to raise awareness among people who move to the county about the Welsh language and different aspects of life through the medium of Welsh. The hope is to empower communities by showing people what opportunities are available for them to contribute to and support locally and help them understand how the Welsh language is woven naturally into the life of the county.

Cered (Menter Iaith Ceredigion) is working with three communities in the first instance to trial the scheme over the coming months encouraging local people to implement it. These communities will receive a supply of 'Welcome to Ceredigion' postcards based on a map designed by Lizzie Spikes to be distributed to homes where people have moved to the area. The reader of the postcard will be able to use the QR code on the back of the card to access a new e-book full of information about Ceredigion's language and culture.

Tregaron is one of the piloted areas.

Councillor Arwel Jones, Chairman of Tregaron Town Council, said: "This is a special opportunity for us to promote the Welsh language to people who have just moved to Tregaron and show all the fantastic things that are being held in the area. The Council is looking forward to working with Cered to take part in this progressive project."

The 'Welcome to Ceredigion' project is hosted by Cered (Menter Iaith Ceredigion) Ceredigion County Council, sponsored by Cynnal y Cardi. For more information on how to get involved in the scheme, contact Cered on cered@ceredigion.gov.uk

Croeso i Geredigion

aelwyd

perthyn

cynefin

